

YN CYNNWYS/  
FEATURING:

GLAN LLYN

TUD./PAGE 2

STAFF NEWYDD/  
NEW STAFF

TUD.3/PAGE 3

PERFFORMWYR  
CENEDLAETHOL/  
NATIONAL  
PERFORMERS

TUD.5/ PAGE 5

Y FFORWM  
TRYDYDDOL/ THE  
TERTIARY FORUM

TUD.6/ PAGE 6

# PEN-BLWYDD HAPUS YMG!

YR YSGOL YN DATHLU 60 MLYNEDD O ADDYSG GYMRAEG!  
THE SCHOOL CELEBRATES 60 YEARS OF WELSH EDUCATION!



## EIN PRIF DDISGYBLION YN ARWAIN Y DATHLU! OUR HEAD PUPILS LEAD THE CELEBRATIONS!

Ar y 6ed o Fedi, fe gychwynnodd yr ysgol ar flwyddyn o ddathlu gyda'r gobaith o wneud 60 peth amrywiol i ddathlu pob blwyddyn ers agoriad Ysgol Maes Garmon! Yng nghwmni Carys, ein disgybl ieuengaf, a Harrison, ein disgybl hynaf, fe ddefnyddiodd Mrs Bronwen Hughes yr achlysur i lansio apêl i weld pa mor bell yn y byd mae cyn-ddisgyblion Maes Garmon wedi cyrraedd. Y gobaith yw cael map rhyngweithiol ar ein gwefan newydd fydd yn dangos i ba wledydd yn y byd mae disgyblion 'Maesy' wedi cyrraedd! Prif-ddisgyblion Casi a Cameron gafodd dorri cacen arbennig â logo'r ysgol.

On the 6th of September, the school began its year of celebrations with the aim of completing 60 different things to celebrate each year since Ysgol Maes Garmon opened its doors! In the company of our youngest pupil Carys, and eldest pupil Harrison, Mrs Bronwen Hughes used the occasion to launch an appeal to discover in which countries our ex-pupils have settled. The hope is to have an interactive map on our new website that allows us to see where in the world 'Maesy' pupils live! Head pupils Casi and Cameron were the privileged two who cut the special cake featuring our logo.

Yn mis Medi, cafodd criw o flwyddyn 7 ac 8 Trochi ddiwrnod wrth eu bodd yng Nglan Llyn. Diwrnod yn llawn gweithgareddau hwyliog - y wal ddringo, rhaffau uchel a chanwïo ar Lyn Tegid. Yn ogystal â mwynhau yn yr awyr agored, cawsant glywed yr iaith Gymraeg ar waith a'r hyfforddwyr yng Nglan Llyn yn bachu ar bob cyfle i gyflwyno geirfa a phatrymau brawddegau newydd. Diwrnod gwerth chweil ac edrychwn ymlaen at fynd yno eto yn fuan! Diolch i Mrs Gwennan Parry-Thomas am drefnu'r diwrnod.

In September, our year 7 and 8 Immersion Course learners attended a fun-filled day at Glan Llyn. Learners got to experience the high ropes, the climbing wall and canoeing on the famous Llyn Tegid. As well as enjoying the fresh air, our learners got to hear the Welsh language in action, with the outdoor instructors grasping every available opportunity to introduce new words and sentence patterns to our learners. A lot of fun was had and we're already looking forward to returning there soon! Thanks to Mrs Gwennan Parry-Thomas for arranging the day.




## GLAN LLYN

EIN DYSGWYR CWRS TROCHI YN MWYNHAU'R AWYR AGORED!  
OUR IMMERSION COURSE LEARNERS ENJOYING THE OUTDOORS!

# Staff Newydd / New Staff

...a rolau newydd! ...and new roles!



## Yr Adran Gymraeg / The Welsh Department

Dymunwn y gorau i Mrs Bethan Wyn Jones fel Pennaeth newydd yr adran, a chroesawn Miss Lisa Owen a Miss Gwenllian Williams fel athrawon Cymraeg newydd. Llongyfarchiadau hefyd i Miss Llinos Jones ar gael ei phenodi'n gyfrifol am hybu Cymreictod. We wish Mrs Bethan Wyn Jones the very best as the new Head of Department, and we welcome Miss Lisa Owen and Miss Gwenllian Williams as new Welsh teachers. Congratulations also to Miss Llinos Jones on being appointed responsibility of promoting Welsh at the school.



## Yr Adran Saesneg / The English Department

Dymunwn y gorau i Mrs Nia Clarkson fel y Pennaeth Adran newydd. Croesawn hefyd Mrs Jennifer Sidwells fel ail yn yr adran a Mr Huw Griffiths fel athro Saesneg a TGCh. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich rolau newydd! / We wish Mrs Nia Clarkson the very best as the new Head of Department. We also welcome Mrs Jennifer Sidwells as Second in Department and Mr Huw Griffiths who joins us as an English ad ICT teacher. We hope that you will be very happy in your new roles!

Llongyfarchiadau i Miss Hannah Morris ar ei phenodi'n Bennaeth Hanes ac i Mr Ynyr Llwyd ar ei benodiad yn Bennaeth Cerddoriaeth. Mae'r ddau yn cymryd lle Mr Owen Thomas sy'n Bennaeth Cynorthwyol a Mrs Nia Wyn Jones sy'n Ddirprwy Bennaeth. Croeso mawr hefyd i Miss Elin Roberts fel aelod o'r adran Gerddoriaeth, Mr Josh Jones a Mr David Earnshaw fel aelodau o'r adran Wyddoniaeth, Mr Morgan Ridgway fel aelod o'r adran Fathemateg a Mr Carwyn Selway-Jones sy'n ymuno â'r adran ADY. / Congratulations to Miss Hannah Morris on her appointment as Head of History and to Mr Ynyr Llwyd on his appointment as Head of Music. Both have taken their positions following Mr Owen Thomas's appointment as Assistant Headteacher and Mrs Nia Wyn Jones's appointment as Deputy Headteacher. We also welcome Miss Elin Roberts to the Music department, Mr Josh Jones and Mr David Earnshaw as members of the Science department, Mr Morgan Ridgway to the Maths department, and to Mr Carwyn Selway-Jones who has joined the ALN department.



# Perfformwyr Cenedlaethol

## National Performers



Llongyfarchiadau i Alice, Bl.13, ar gael y fraint o fod yn repiano i Fand Pres Ieuencid Prydain Fawr yn ddiweddar! Congratulations to Alice, yr 13, on having the privilege of playing repiano at the recent Youth Brass Band of Great Britain concert!



Mae yna gystadlu anferthol i fod yn rhan o Theatr Ieuencid Cenedlaethol Prydain Fawr, a llwyddodd Nel, bl.11, i gael ei derbyn, a hynny ar ei chais gyntaf erioed. Anhygoel! There's a huge amount of competition to get into the National Youth Theatre of Great Britain, but Nel from year 11 managed it on her first attempt. Amazing!

## Côr Cenedlaethol Ieuencid Cymru/ National Youth Choir of Wales

Roedd Isobel o Fl.13 wedi cael haf prysur fel aelod o Gôr a Cherddorfa Ieuencid Cymru! Tra roedd y cwrs cerddorfa yn rhithiol yn unig, fe gafodd Isobel ac Iwan bl.11, y cyfle i fynd i Gasnewydd ble roedd y côr wedi perfformio darnau gan Bernstein ac Arwel Hughes.

Cafodd Isobel wledd o gyngor gan ei thiwtor, y gantores Fflur Wyn. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch! Isobel in year 13 had a very busy summer as a member of both the National Youth Orchestra and Youth Choir of Wales. Whilst the orchestra course was virtual, both Isobel and Iwan, yr 11, got to go to Newport where the choir performed works by Bernstein and Arwel Hughes.



Isobel received a feast of advice from her tutor, Fflur Wyn. Many congratulations to both Isobel and Iwan.



**'Dwi wedi creu ffrindiau am byth ac roedd hi'n profiad gwych!'**  
**'I've created friends for life and it was an amazing experience'-Nel**

### Profiad Iwan

'Roeddwn i mor hapus i gael lle yn Côr Cenedlaethol Ieuencid Cymru 2021. Yn anffodus, nid oedd y cwrs llawn a'r holl gyngherddau yn bosibl oherwydd Coronavirus. Roedd hyn yn siomedig iawn ond roeddwn yn ddiolchgar iawn i Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru oedd wedi gweithio yn galed iawn i gynnig rhaglen rhithiol i'r côr o ymarferion adrannol, sesiynau techneg arbenigol a chyfleon i weithio efo arbenigwyr cerddorol.'

Ar ddiwedd yr haf, cawsom y cyfle i gwrdd ar gyfer ymarfer 'byw' yng Nghasnewydd efo'r arweinydd Tim Rhys Evans MBE. Roedd yn wych gweld a chlywed yr holl gôr efo'i gilydd eto.'

### Iwan's Experience

'I was so pleased to have secured a place in the National Youth Choir of Wales. Unfortunately, the full course and concert series could not happen due to Coronavirus. This was very disappointing but I was very grateful to the National Youth Arts Wales who worked hard to arrange a virtual course that featured sectionals, specialist technique sessions and opportunities to work with musical specialists.'

At the end of the summer, we had an opportunity to rehearse 'live' in Newport with the conductor Tim Rhys-Evans MBE. It was great to see and hear the whole choir together again.'

# Razzamatazz!

## BLWYDDYN 6 A 7 YN 'UNO' I GREU ANRHEG BEN-BLWYDD ARBENNIG YEARS 6 AND 7 JOIN FORCES TO CREATE A SPECIAL BIRTHDAY GIFT!

Er nad oedd modd cynnal Noson Agored arferol i ddysgwyr Blwyddyn 6 eleni, roedd Ysgol Maes Garmon yn awyddus iawn i wneud rhywbeth arbennig efo'r ysgolion cynradd sydd o fewn ein clwstwr. Fe aeth Mr Ynyr Llwyd a Mrs Nia Wyn Jones ati i addysgu aelodau o flynyddoedd 6 a 7 y gân afaelgar 'Razzamatazz' gan ein cyn-athrawon Rhys Jones a Dr Aled Lloyd-Davies. Roedd y dysgwyr hefyd wedi creu cardiau pen-blwydd arbennig ar ein cyfer. Cewch wylio'r fideo trwy sganio'r cod QR ar waelod y dudalen.

Although we couldn't have our usual open Evening for the learners of Year 6 this year, Ysgol Maes Garmon were very keen to complete something special with the schools in our cluster family. Mr Ynyr Llwyd and Mrs Nia Wyn Jones taught members of years 6 and 7 the catchy song 'Razzamatazz', written by former teachers Rhys Jones and Dr Aled Lloyd-Davies. The learners also created special birthday cards for us. You can watch the video by scanning the QR code at the bottom of the page.



**MAE PROSPECTWS 2021-2022 NAWR AR GAEL AR GYFER YSGOLION CYNRADD.  
THE 2021-2022 PROSPECTUS IS NOW AVAILABLE FOR JUNIOR SCHOOLS.**

CYSYLLTWCH Â'R YSGOL OS OES ANGEN COPI AR GYFER RHYWUN YN EICH TEULU.  
CONTACT THE SCHOOL IF YOU NEED A COPY FOR ANYONE IN YOUR FAMILY.



# Clwb Perfformio newydd sbon ar gyfer disgyblion Bl.7-9 dan arweiniad Theatr Clwyd! Pob nos Fawrth o 3-4 y.p. / Theatr Clwyd presents a brand new Performing Club for Years 7-9! Every Tuesday from 3-4pm.



Llongyfarchiadau i dîm 'Mental Mechanics' ar gyrraedd y rownd derfynol yng nghystadleuaeth F1 in Schools yn ddiweddar. / Congratulations to the 'Mental Mechanics' for reaching the final of the F1 in Schools competition recently!

## Y Fforwm Trydyddol/ The Tertiary Forum

Mae angen llongyfarch yr 11 myfyriwr oedd wedi ymgeisio am rôl brif ddisgybl eleni. Cafwyd cyflwyniadau gwerth chweil gan bob un ohonynt, ac mae'r 11 yn parhau i gydweithio'n wych er lles ein dysgwyr yn yr ysgol. Cameron a Casi gafodd eu penodi'n brif ddisgyblion, a bydd Isobel, Honey, Caitlin, Elinor, Elen, Catrin, Sion, Henry a Lydia yn eu cefnogi. /



Congratulations are in order for the 11 students who applied for the role of Head Pupil this year. All candidates gave fantastic presentations, and the 11 of them continue to work excellently together for the well-being of our learners. Cameron and Casi were appointed Head Pupils, and they will be supported by Isobel, Honey, Caitlin, Elinor, Elen, Catrin, Sion, Henry and Lydia.

## Clwb Gwaith Cartref CA3- Pob nos lau tan 16:00 KS3 Homework Club- Every Thursday until 16:00

### Prif Ddisgyblion y Dyfodol?/ Future Head Pupils?

Mae ein dysgwyr hefyd wedi bod yn brysur yn apwyntio cynrychiolwyr dosbarth ar gyfer fforymau blwyddyn a'r fforwm ysgol. Dyma aelodau o 7M yn pleidleisio dros gynrychiolwyr y dosbarth! Our learners have been busy appointing class representatives for our year forums and school forum. Here are some members of 7M casting their votes!



Mae ein dysgwyr bellach yn medru archebu bwyd cyflym a'i gasglu o'r Caban. Our learners can now order fast food and collect it from our new 'Caban'.



Llongyfarchiadau i Nancy, Bl.8, ar ennill lle yn nhîm pêl-rwyd Thunder Manceinion, i Mia, Bl.9, am ennill lle efo Canolfan Perfformiad Merched Wreccsam, ac i Sion, Bl.13, am fod yn gapten ar dîm hoci Cymru dan 18. Bu Sion a Seren yn chwarae hoci dros eu gwlad yn y 'Futures Cup' yn ôl yn Awst. Llongyfarchiadau! /

Congratulations to Nancy, Yr 8, on being selected to play for the Manchester Thunder team, to Mia, Yr 9, for gaining a place in Wrexham AFC's Girls' Performance Centre, and to Sion, Yr 13, for having the honour of being captain for the Wales under 18 boys' hockey team. Sion and Seren both played for their country during the 'Futures Cup' tournament back in August. Well done!




Ydych chi wedi gwyllo'r holl gyfarchion pen-blwydd oedd wedi ein cyrraedd? Dyma'r tair a fu'n gyfrifol am holi'r holl seibs am eu hamser! Diolch i Mabli, Nia a Mari, Bl.10, am eu gwaith o gasglu'r holl ffilmiau. / Have you watched all the birthday greetings that were sent to us? Here are the three who asked the celebs for their time! Thank you to Mabli, Nia and Mari, Yr 10, for their hard work in collecting all the

Ewch i Twitter @MaesGarmon i wylio'r <sup>films.</sup> ffilmiau.  
Visit @MaesGarmon on Twitter to watch the films.



Llongyfarchiadau i Morgan, Bl.9, sydd wedi ennill medal efydd yn ei ras feic XC gyntaf erioed! /

Congratulations to Morgan, Yr 9, on gaining a bronze medal in his first ever XC bike race!



Pob dymuniad da i Miss Sheri-lynn Wathey sy'n gadael yr ysgol wedi 17 mlynedd o wasanaeth fel Technegydd D/T, Celf a Cherddoriaeth. Diolch am bob dim, Miss Sheri-lynn! / We send our best wishes to Miss Sheri-lynn Wathey who is leaving the school following 17 years of service to the D/T, Art and Music departments. Thank you for everything, Miss Sheri-lynn!

# Y Daith-Amal-The Walk

**Mae ein sesiynau cofrestru boreol yn rhoi cyfle i'n dysgwyr ddysgu am wahanol faterion sy'n effeithio ein byd. Yn ddiweddar, fe glywodd pawb am ferch arbennig o'r enw Amal. Mabli Bl.9 sy'n adrodd yr hanes...**

Yn 2021, bu cwmni Good Chance a Handspring Puppet Company yn gweithio efo'i gilydd i ddod ag Amal yn 'fyw'. Mae Amal yn byped 3.5 metr o daldra sy'n cynrychioli ffoaduriaid ifanc. Pwrpas y prosiect yw codi ymwybyddiaeth am sefyllfa miloedd o ffoaduriaid ifanc sy'n dianc o wledydd fel Syria.

Yn ystod y prosiect mi fydd Amal yn teithio o Dwrci i'r Deyrnas Unedig, ar siwrne i ddarganfod ei mam ac i ddechrau bywyd newydd mewn gwlad arall. Mi fydd y daith yma yn dod ag artistiaid enwog, sefydliadau diwylliannol mawr, grwpiau cymunedol a sefydliadau dyngarol at ei gilydd, gan greu un o'r gweithiau celf cyhoeddus mwyaf arloesol ac anturus a geisiwyd erioed.

Cafodd Amal ei chreu gan Handspring Puppet Company. Mae Amal yn cynrychioli'r holl blant sydd wedi eu dadleoli ar draws y byd, a'r rhai sydd wedi eu gwahanu o'u teuluoedd. Bydd 'Little Amal' yn teithio 8,000km er mwyn ymgorffori'r neges "Don't forget about us".

Ar yr adeg hon o newid byd-eang annisgwyl, mae'r daith gerdded yma yn ymateb artistig anhygoel: mae'n sicrhau nad yw'r byd yn anghofio am y miliynau o blant sydd wedi eu dadleoli, pob un ohonynt efo stori unigryw, sy'n fwy bregus nag erioed oherwydd y pandemig byd-eang.

Mae Amal yn cynrychioli'r miloedd o blant sydd yn union fel hi. Mae'r plant yma wedi ffoi rhyfel ac erledigaeth ac maent angen addysg a chefnogaeth hanfodol er mwyn ail-adeiladu eu bywydau. Bydd y daith yn gorffen ym Manceinion ar y 3ydd o Dachwedd.

**Our registration sessions give our pupils the opportunity to learn about different issues that affect our world. Recently, they all heard about a very special girl called Amal. Mabli Yr 9 tells us more...**

In 2021, the Good Chance and Handspring Puppet Company worked together to bring Amal 'alive'. Amal is a 3.5 metre puppet who represents young refugees. The purpose of the project is to raise awareness of the plight that thousands of young refugees face fleeing countries such as Syria.

During the project, Amal will travel from Turkey to the United Kingdom on a journey to find her mother and to begin a new life in another country. The walk will bring many famous artists, large cultural groups, community groups and humanitarian organisations together, creating one of the greatest, most innovative public displays of art ever attempted.

Amal was created by the Handspring Puppet Company. She represents all children who have been displaced across the world, separated from their families. Little Amal will travel walk 8,000km to spread an important message... 'Don't forget about us'.

In a world where unexpected change is the norm, this epic walk is an amazing artistic reaction: it will ensure that the world will not forget the millions of children who are displaced, each one with a unique story, more fragile than ever due to the international pandemic.

Amal represents thousands of children just like her. The children have fled war and persecution and they need education and vital support to rebuild their lives. The walk will end in Manchester on the 3rd of November.





Llongyfarchiadau i Nanw Bl.13 ar ennill Gwobr Goffa Burt Williams eleni am ei chynnydd tra'n astudio Mathemateg Safon Uwch. Mae Nanw yn ferch amryddawn sydd hefyd wrth ei bodd yn dylunio. Dyma hi efo crys-t ddyluniwyd ganddi i ddathlu 10 mlynedd o 'Daith y Wawr' sy'n codi arian ar gyfer Hosbis San Cyndeyrn.

Congratulations to Nanw on winning the Burt Williams Memorial Award this year for her progress whilst studying for her Mathematics A-Level. Nanw is a multi-talented pupil who also enjoys designing. Here she is with a special t-shirt she designed to celebrate 10 years of the Dawn Walk in aid of St Kentigern's Hospice.

## Fforwm Rhieni / Parents' Forum

Mae'r Fforwm Rhieni yn rhoi cyfle i rieni a gwarcheidwaid fynegi barn am yr ysgol. Nid oes angen i chi ymrwmo i bob cyfarfod, a bydd y cyfarfodydd yn ddwyieithog fel bod pawb yn medru cyfrannu. Bydd y fforwm cyntaf ar nos Fercher, y 3ydd o Dachwedd am 18:30. I gael y cyswllt digidol i'r cyfarfod, cysylltwch â niawyn.jones@ymg.cymru / The Parents' Forum will give parents and guardians an opportunity to share opinions about the school. You don't need to commit to attending every meeting, and all meetings will be bilingual so everyone can participate. The first forum will be at 18:30 on the 3rd of November. To receive the digital link to the meeting, please contact niawyn.jones@ymg.cymru.



**YOUNG MINDS**

**meddwl.org**

Os oes gan eich plentyn bryderon ac angen cefnogaeth, mae cymorth ar gael. Gall eich plentyn siarad efo'r Tiwtor Dosbarth, y Pennaeth Blwyddyn neu Mr Sion Williams, un o'r Penaethiaid Cynorthwyol. Mae gwefannau Young Minds a meddwl.org hefyd yn cynnig cyngor a chymorth.

If your child has any worries and needs support, there is help available. Your child can talk to their Registration Tutor, Head of Year or Mr Sion Williams, one of the Assistant Headteachers. The Young Minds and meddwl.org websites also offer advice and help.

Oes gan eich plentyn ddiddordeb mewn pynciau STEM (Gwyddoniaeth; Technoleg; Peirianeg; Mathemateg)? Mae cyrsiau 'Routes into Stem' ar gael ar gyfer dysgwyr bl.9 a 10 yn ystod gwyliau hanner tymor. Ewch i <https://www.etrust.org.uk/routes-into-stem-read-more> am fwy o wybodaeth./ Does your child have an interest in any of the STEM subjects (Science; Technology; Engineering; Mathematics)? The 'Routes into STEM' courses are available for learners in years 9 and 10 during the half-term holidays. Go to <https://www.etrust.org.uk/routes-into-stem-read-more> for further information.

**Rhieni a Gwarcheidwaid CA3-cofiwch arwyddo dyddiadur eich plentyn fel arwydd eich bod chi'n cadw trac o waith cartref eich plentyn. Diolch! KS3 parents and guardians- remember to sign your child's diary so that we can see that you're tracking your child's homework tasks. Diolch!**



# Ysgol Maes Garmon yn 60 Oed.

Cyfres o englynion gan ein Cyn-Brifathro, Mr Huw Alun Roberts.  
A collection of verses written especially for the school by our former  
Headteacher, Mr Huw Alun Roberts.

Ein llannerch ddiwylliannol—ein coron  
a'n caer yw ein hysgol;  
ein nef wrth edrych yn ôl  
a'n hadwy i'r dyfodol.

Dyfodol ein hysgol ni—yw rhoi hwb  
i'r iaith drwy'i thrybini.  
Ennill hon, er grym y lli,  
a'i hennill yn llawn ynni!

Ein hynni rown iddi heddiw—a'i hias  
a geisiwn, heb edliw!  
Yn daer iawn fe fyddwn driw  
i'w hwyl hudol a chlodwiw.

Hen fwrlwm clodwiw diddiwedd—ydyw  
a gododd o dirwedd  
hen sir a'i phryderus wedd,  
o'i galar, ie, a'i gwaeledd.

Gwaeledd iaith ysgogodd weithio—yn frwd  
yn frwydr i ni gofio  
gan beri iaith gwyn ein bro  
yn gadarn i ailgydio.


Ailgydio! Rhoi yfory—i'r heniaith;  
rhoi anadl i Gymru;  
Rhoi dur ein llafulur i'r llu.  
Llwyddiant, dim llai o'i haeddu.

Fe haedda fyrdd o roddion!—"Haleliw  
Haleliwia" Garmon  
yw'n galwad, â'n holl galon,  
'n uwch o hyd i'r llannerch hon!





Diolch i Miss Llinos Jones ac aelodau Bl.13 am drefnu dathliadau Diwrnod Shwmae Su'mae! Thanks to Miss Llinos Jones and members of year 13 for arranging the 'Shwmae Su'mae Day' celebrations!



Mae'r poster anhygoel yma wedi ei ddylunio gan Nia, Bl.10, ac yn cynnwys ei meddyliau hi am yr iaith Gymraeg a'r hyn mae'r iaith yn golygu iddi hi, i'r ysgol ac i'r byd. Bydd ei gwaith yn cael ei drosglwyddo i bosteri ar gyfer yr ysgol. / This amazing poster has been designed by Nia in Year 10 and contains her thoughts about the Welsh language and what the language means to her, to the school and to the world. Her work will be transferred to posters that will be displayed around the school.

# National Teen Book Club



Roedd cynnwrf yn yr adran Saesneg yr wythnos hon wrth iddyn nhw dderbyn gwobr o dros 100 o lyfrau fel rhan o gystadleuaeth 'Lit in Colour' cwmni Penguin. Bydd y llyfrau, gan awduron fel Stormzy a Barack Obama, yn cynnig y cyfle i'n dysgwyr ddarllen llenyddiaeth gan awduron duon, asiaidd ac ethnig lleiafrifol./There was excitement in the English department this week as they proudly received their prize of over 100 books from the Penguin 'Lit in Colour' competition. Ranging from Stormzy to Barrack Obama and many others between, the books will provide students with the opportunity to read and study literature by Black, Asian and minority ethnic writers.



Ydych chi'n hoff o ddarllen?  
Oes gennych chi ddiddordeb  
mewn ysgrifennu creadigol?  
Beth am ymuno efo'r *National  
Teen Book Club*?

Mae'r clwb yn rhan o'r elusen  
'Speakers for Schools', ac  
yn eich galluogi i ddarllen  
nofelau cyfoes, ac yna  
fod yn rhan o weithgareddau  
creadigol yn seiliedig ar y llyfr,  
yn ogystal â chyfle i holi'r  
awduron eu hunain!

Y llyfr nesaf i gael ei drafod  
yw 'Chinglish' gan Sue  
Cheung. Os oes gennych  
ddiddordeb i fod yn rhan o'r  
clwb, cysylltwch efo Mrs Jen  
Sidwells yn ystafell 10.

Are you fond of reading? Do  
you have an interest in  
creative writing? How about  
joining the National  
Teen Book Club?

This club is part of the  
'Speakers for Schools'  
charity, and allows you  
to read contemporary  
novels as well as participate  
in creative writing activities  
based on the books. You can  
also question the authors  
themselves!

The next book to be studied is  
'Chinglish' by Sue Cheung.  
If you're keen to get involved,  
please see Mrs Jen Sidwells in  
room 10.

RIGHT © 2018

## LEITNER Flash card method

@ImpactWales

Hint: try adding more boxes or more flashcards or changing the intervals

Flashcards

answer correct place card in next box

answer correct place card in next box

answer incorrect move card to previous box

answer incorrect move card to previous box

An effective use of flashcards to prompt & recall learning using spaced practice proposed by Leitner in the 1970s. It focuses on the proficiency of recall of the learner. Information which is easily recalled has a longer time lapse before the next recall opportunity.

## 4 Methods of Retrieval Practice

Before you start put away all your books & classroom materials.

Retrieval Practice Examples

- Exit Tickets
- Starter quizzes
- Multiple choice quizzes
- Short answer tests
- Free write
- Think, pair, share
- Ranking & sorting
- Challenge grids

### BRAIN DUMP

Write, draw a picture, create a mind-map on everything you know about a topic.

Give yourself a time limit, say 3 minutes, then have a look at your books & add a few things you forgot.

### QUIZZING

Create practice questions on a topic. Swap your questions with a partner & answer.

Question - What is a metaphor?

- A comparison using 'like, as, than'.
- A comparison where one thing is another.
- A comparison with a human attribute.

### FLASHCARDS

Create your own flashcards, question on one side answer on the other. Can you make links between the cards?

You need to repeat the Q&A process for flashcards you fail on more frequently & less frequently for those you answer correctly.


### KNOWLEDGE ORGANISERS

Complete a knowledge organiser template for key information about a topic.

You can use knowledge organisers to learn new words & make links in between subjects or ideas.

After you have retrieved as much as you can go back to your books & check what you've missed. Next time focus on that missing information

Bydd dysgwyr Bl.11-13 yn sefyll ffug-arholiadau'n fuan. Mae gan Impact Wales syniadau am wahanol strategaethau adolygu. Years 11-13 will be sitting their mock exams soon. Impact Wales has various suggestions for revision strategies.



Mae Rhestr Testunau newydd Eisteddfod yr Urdd bellach ar gael! Ewch at wefan [www.urdd.cymru](http://www.urdd.cymru) i gael eich copi am ddim. Mae gymaint o gystadlaethau amrywiol i chi ymgeisio. Amdani! The Competition List for the 2022 Urdd National Eisteddfod is now available. Go to [www.urdd.cymru](http://www.urdd.cymru) for a free copy. There are so many competitions for you to try. Go for it!



Mae'r ysgol wedi bod yn hynod ffodus o gael offer technolegol newydd ar gyfer ein dysgwyr yn ddiweddar. Mae'r offer yn cynnwys i-macs a chyfrifiaduron newydd i'r adran Gerddoriaeth, yn ogystal â sawl system troli yn llawn Chromebooks. Diolch yn fawr iawn i Mr Steffan Jones am sicrhau bod yr holl offer newydd yn cael ei osod. / The school has recently been very fortunate in receiving a vast amount of new technology equipment for our learners. The equipment includes i-macs and new computers for the Music department, as well as several trolley systems full of Chromebooks. Thank you very much to Mr Steffan Jones for sorting the equipment.

Bydd yr ysgol yn cau am wyliau hanner tymor ar ddydd Gwener, yr 22ain o Hydref, 2021, ac yn ailagor ar ddydd Llun, y 1af o Dachwedd, 2021. Mwynhewch y seibiant a chadwch yn ddiogel. The school will close for the half-term holiday on Friday, the 22nd of October, 2021, and will reopen on Monday, the 1st of November, 2021. Enjoy the rest and keep safe.

swyddfa@ymg.cymru



01352 750678